

Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd nos Lun, 11eg Ionawr, 2021 drwy gyfrwng Zoom

Presenol: Dwynwen (DP) (**Cadeirydd**) Iolo Roberts (IPR), Eryl (EO), Gwyn (GW), Dilys (DAP), Steve (SW), Iona (IE), , Iolo ap Gwynn (IAG), Raymond (RG), Eirwen (EW), Dewi (DH)

Ymddiheuriadau: Gareth , Richard

Estynnodd y Cadeirydd groeso a dymunodd Fwyddyn Newydd Ddai i bawb.

1.	<u>COFNODION</u> Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed Hydref, 2020 fel rhai cywir. Yn codi <u>Materion CMP</u> Adroddodd EO mai mynychu cyfarfodydd o ganghennau'r CMP yn y De <u>neu'r</u> Canolbarth ar ran y Clwb yr oedd Richard Mitchley wedi cytuno i'w wneud.	
2.	<u>MATERION ARIANNOL</u> Cafwyd diweddariad gan DAP ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol Adroddodd <ul style="list-style-type: none">• bod 252 o aelodau wedi ail-ymuno â'r Clwb am y flwyddyn ac wedi talu'r tâl aelodaeth llawn a 30 heb ail-ymuno hyd yma• nad oedd 41 yn talu'r tâl aelodaeth llawn ac felly ddim yn aelodau ond yn hytrach yn cael eu cyfri fel cyfeillion i'r Clwb• bod 6 o unigolion yn talu ac nad oedd ganddi unrhyw wybodaeth ynglŷn â phwy oeddynt. Roedd un taliad yn dod o gyfrif unigolyn sydd o bosib yn wraig/cymar i aelod ac roedd yna dybiaeth ei bod yn dod o dde Cymru Cytunwyd i. derbyn y wybodaeth ii. gofyn i DH wneud ymholiadau ymhlith aelodau'r de a fyddai gan unrhyw un syniad ar ran pwy y byddai'r unigolyn dan sylw yn gwneud taliad	
3.	<u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u> A. Teithiau Preswyl Ystyriwyd sut i ddelio gyda'r teithiau preswyl sydd ar y gweill i Glen Shiel a Hawes ers y llynedd.	

Nodwyd

- bod y teithiau hyn i fod i'w cynnal ym mis Mai 2020 ond y bu'n rhaid eu gohirio oherwydd y pandemig
- bod yr aelodau hynny oedd yn bwriadu eu mynychu wedi talu'n llawn a bod DAP wedi talu blaendal i'r YHA a SYHA ar eu cyfer
- bod GW, trefnydd y daith i Hawes, wedi cysylltu â'r YHA ynglŷn â'r sefyllfa ac wedi cael ar ddeall nad oedd y mudiad yn barod i gymryd grwpiau cymysg o unigolion ac felly fel y safai pethau ar hyn o bryd na fyddent yn caniatáu i'r Clwb fynychu. Roeddynt yn cynnig ad-daliadau neu ail-drefnu y grwpiau hynny oedd wedi trefnu i aros yn eu hosteli yn ystod y cyfnod clo presennol hyd at ddiwedd Chwefror ac byddent yn adolygu'r sefyllfa wedyn yn sgil yr amgylchiadau cyfredol. Mae'n bosib y bydd y sefyllfa yma yn parhau wedi hynny ac felly mae'r sefyllfa yn ansicr iawn.
- doedd dim gwybodaeth am y sefyllfa gyda'r SYHA ynglŷn â Glen Shiel ar hyn o bryd ond tybiwyd y byddai'r sefyllfa yn un gyffelyb
- yn yr amgylchiadau presennol o dan glo ac am y cyfnod i ddod roedd yn anodd gweld sicrwydd y byddai'r teithiau yma yn digwydd ac yn sgil hynny mai'r peth doethaf fyddai eu canslo os yn bosib gwneud hynny ac ad-dalu'r aelodau. Byddai modd eu hail drefnu pan fyddai amgylchiadau yn canitâu.

Cytunwyd

- i. Yn sgil yr amgylchiadau dylid canslo'r ddwy daith breswyl yr oedd y Clwb wedi eu trefnu
 - ii. gofyn i GW gysylltu â'r YHA i holi a oedd modd canslo'r daith a gofyn am ad-daliad o'r blaendal ac i DP drafod gyda GER i drefnu'r un fath gyda'r SYHA.
 - iii. gofyn i'r trefnwyr gysylltu â phawb oedd yn bwriadu mynychu yn eu hysbysu o'r hyn sydd wedi ei gytuno gan y Pwyllgor
- lly gofyn i DAP drefnu ad-daliad i'r aelodau pan ddychwelir yr arian.

B. Rhaglen Weithgareddau

Adroddodd EO ei fod wedi trefnu rhaglen ar gyfer y cyfnod Ionawr i Ebrill ond bu'n rhaid ei chanslo pan gyflwynwyd y cyfnod clo diweddaraf yn niwedd Rhagfyr

Pan fyddai'r sefyllfa yn newid maes o law ei fwriad oedd atgyfodi'r rhaglen o'r dyddiad dan sylw yn unol â'r canllawiau a fyddai yn bodoli ar y pryd a defnyddio'r teithiau bu'n rhaid eu canslo cyn hynny rhywbryd eto. Roedd yn ystyried pan godir y cyfyngiadau a ddylid cynnal un daith bob dydd Sadwrn yn hytrach na chael dwy daith bob yn ail dydd Sadwrn.

Cytunwyd

- i. derbyn y wybodaeth a diolch i EO am ei holl waith gyda'r trefniadau
- ii. dylid cadw at y drefn o gynnal dwy daith (bob yn ail dydd Sadwrn) ar benwythnosau a defnyddio'r teithiau y bu'n rhaid eu gohirio i lenwi unrhyw fylchau yn ôl yr angen.

4. MATERION CMP

	<p>Adroddodd SW bod Gareth Pierce bellach wedi sefyll lawr fel Cadeirydd y CMP a bod Paul Drew, Uwch Gyfarwyddwr Annibynol y mudiad wedi ei benodi fel Cadeirydd dros dro. Roedd cangen leol y CMP wed bod yn edrych ar gynlluniau Partneriaeth Eryri ynglŷn â threfniadau parcio a datblygiad y cynllun pentrefi porth. Roeddynt yn gobeithio y ddi mwy o wybodaeth am gynlluniau'r Bartneriaeth maes o law</p> <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth a diolch i SW am ei adroddiad.</p>	
<p>5.</p>	<p><u>Y BARTNERIAETH AWYR AGORED</u></p>	
	<p>Adroddwyd gan RG oherwydd yr amgylchiadau na chafodd y Bartneriaeth gyfle i ail-drefnu'r cwrs cymorth cyntaf ar gyfer rhai o aelodau'r Clwb .</p> <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth.</p>	
<p>6.</p>	<p><u>ENWAU LLEOEDD YNG NGHWM IDWAL</u></p>	
	<p>Adroddwyd gan EO ei fod wedi derbyn e-bost gan Ieuan Wyn o Fethesda yn gofyn a fyddai'r clwb yn fodlon cysylltu ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i gefnogi cais i baratoi fersiwn ddiwygiedig o'u map o Gwm Idwal a'r cyffiniau er mwyn cynnwys enwau Cymraeg cywir ac ychwanegu rhai nad ydynt wedi eu cofnodi.</p> <p>Cytunwyd gofyn i EO hysbysu Ieuan Wyn fod y Pwyllgor yn barod i gefnogi ei gais a chysylltu ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ynglŷn â hyn.</p>	
<p>7.</p>	<p><u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u></p> <p>Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal am 7.30pm, nos Lun 10fed o Fai 2021 drwy gyfrwng Zoom.</p>	